**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (5)**

**Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 21 Mai 2002**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 4.

**2.43pm**
**Datganiad:**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd Coronaidd y Galon**

**3.16pm**
**Datganiad:**
**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg ar yr Adolygiad o'r flwyddyn gyntaf o drefniadau mynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru**

**3.52pm**
**Datganiad Busnes: Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.55pm**
**Pwyntiau o Drefn**
**Nick Bourne** ar sylwadau a wnaed gan swyddog yn Swyddfa Cymru ynghylch penderfyniad a wnaed gan y Cynulliad ar 16 Mai 2002 ar y Strategaeth i Bobl Hyn.
**Ieuan Wyn Jones** ar ddatganiad gan Brif Weinidog Cymru ynghylch CBAC a wnaed flwyddyn i heddiw.

**4.00pm**
**Cynnig Cyfansawdd:**
***Ni chynhaliwyd dadl ar y cynnig hwn, cynhaliwyd pleidlais yn syth.***
*NDM1055* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002; ac

2. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002;

3. Yn cymeradwyo:
**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002; ac

4. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002;

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig cyfansawdd:**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Derbyniwyd y cynnig cyfansawdd.**

**4.01pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru)**
NDM1058 - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1059* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002**
*NDM1056* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002.

*NDM1057* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw’n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â’r gorchymyn drafft, Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2002;

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002 a’r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ebrill 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**4.26pm**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.**

**Dadl ar Ddatblygu Cynaliadwy (wedi'i haildrefnu o 14 Mai 2002)**
*NDM1051* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu'r cynnydd sylweddol sy'n cael ei wneud tuag at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, ac yn cydnabod cyfraniad pwysig partneriaid y Cynulliad a mudiadau o'r tu allan.
2. Yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn dod yn rhan ganolog o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru fel a nodwyd yn "Penderfynu Byw'n Wahanol" a "Sut Ydym yn Dysgu Byw'n Wahanol";
3. Yn cefnogi cyfraniad positif o du Cymru i Uwch-gynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg ddiwedd Awst/ddechrau Medi; ac
4. Yn galw ar i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd baratoi cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy diwygiedig a mwy diweddar."

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 1.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:
Ond yn cydnabod mai trwy welliannau ymarferol i'r amgylchedd ac i ansawdd bywydau pobl y bydd ymrwymiad y Llywodraeth i Ddatblygu Cynaliadwy yn cael ei farnu.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym Mhwynt 2:
Dileu "fel y nodwyd yn "Penderfynu Byw'n Wahanol" a "Sut Ydym yn Dysgu Byw'n Wahanol".

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:
Ond yn cydnabod bod llawer iawn eto i'w wneud o ran datblygu Strategaeth ar Wastraff lle ceir rhagdybiaeth yn y polisïau cynllunio yn erbyn datblygu mwy o losgyddion a safleoedd tirlenwi.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3 ar ôl 'Medi':
ac yn croesawu'r ffaith bod Prif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi mai ef fydd yn cynrychioli Cymru yn Uwchgynhadledd y Byd.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cefnogi'r syniad o gynnwys dangosydd sy'n nodi faint o bobl ifanc sy'n aros yn eu cymunedau.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn datgan y dylai'r newid yn yr hinsawdd fod yn ystyriaeth o bwys yng Nghynllun y Cynulliad Cenedlaethol ac yn galw am ddynodi creu economi carbon isel yn un o amcanion allweddol polisi datblygu economaidd yng Nghymru.

Gosodwyd "Penderfynu Byw'n Wahanol" a "Sut Ydym yn Dysgu Byw'n Wahanol" yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2000.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 14; Ymatal 7; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 14; Ymatal 7; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.32pm

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 23 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

MAE'R DEISEBAU A ATGYNHYRCHIR ISOD YN YR IAITH Y'U CYFLWYNWYD I'R CYNULLIAD

**The following petition was received on the 21st May 2002**

Petition: A Petition for More Accountability to the Public

Principal Petitioner: Mr G Smith

No of Petitioners: 277

Text of Petition:

We, the undersigned, would like to know what our community taxes are going to be spent on before any project is innovated by some dictatorial councils in the Rhondda Cynon Taf area. What the public see of their management is total disorganisation and a severe waste of the community tax. For example; - We have a

redundant bus shelter opposite the CO-OP in Hirwaun, while the actual bus stop is 200 yards from it. We have waited over six months for a replacement without protection from the severe weather while the council continue to knock strong concrete block shelters down unnecessarily throughout the Cynon Valley. This too is a wasteful use of our community tax. These councils should operate in a more democratic way, by consulting with the public at these meetings they hold and wait for the public to sanction these projects. That is what democracy is all about, and not the surreptitious method they use to dupe the public. We would like to see an investigation by the public into the management of our community tax.

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a osodwyd ar 21 Mai 2002

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1406

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1407

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1408

Regulatory Appraisal for The Town and Country Planning (Fees for Applications and Deemed Applications (Amendment) (Wales) Order 2002, The Town and Country Planning (General Development Procedure) (Amendment) (Wales) Order 2002 and The Town and Country Planning (General Permitted Development) (Amendment) (Wales) Order 2002 - LD1409. Dim copi Cymraeg ar gael.

The Home Grown Cereals Authority (Rate of Levy) Order 2002 - LD1410. Dim copi Cymraeg ar gael.

The Plant Protection Products (Amendment) (No.2) Regulations 2002 - LD1411. Dim copi Cymraeg ar gael.